Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Cynllun Gweithredol 2026-2027



## 3 Amdanom Ni

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru.

## 4 Rhagair

Croeso i'n Cynllun Gweithredol ar gyfer 2026-2027.

## 6 Blaenoriaeth 1

Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

## 8 Blaenoriaeth 2

Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

## 12 Blaenoriaeth 3

Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

## 10 Blaenoriaeth 4

Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.

## 14 Adnoddau

## 15 Cysylltwch â ni







# Amdanom ni

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru.

## Ein Diben yw

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

## Ein Gweledigaeth yw


Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

## Rydym yn gwneud y pethau canlynol:

- Cofrestru, rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol, gan gymryd camau gorfodi lle na chaiff safonau eu cyrraedd.
- Arolygu gwasanaethau'r GIG ledled Cymru i sicrhau ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd.
- Cynnal adolygiadau cenedlaethol i archwilio materion allweddol yn drwyadl, a llywio gwelliant.
- Monitro pryderon ac atgyfeiriadau diogelu, gan weithredu'n gyflym wrth i risgiau gael eu nodi.
- Argymell gwelliannau – ar unwaith ac ar gyfer yr hirdymor – i atgyfnerthu gofal ym mhob rhan o'r sector annibynnol a sector y GIG.
- Cymryd camau gorfodi rheoliadol er mwyn sicrhau bod darparwyr gofal iechyd annibynnol yn bodloni gofynion deddfwriaethol.

## Caiff ein gwaith ei gyflawni gan y canlynol:

- Tîm ymroddedig o staff sydd wedi'u lleoli ledled Cymru, sy'n cefnogi ein swyddogaethau sicrwydd a rheoliadol.
- Adolygwyr Cymheiriaid Arbenigol a gaiff eu recriwtio'n barhaus i ddarparu gwybodaeth arbenigol a chyfredol am wasanaethau a safonau ansawdd.
- Panel o Adolygwyr Profiad y Claf ac Arbenigwyr drwy Brofiad i gasglu barn cleifion yn ystod arolygiad.
- Panel o Seiciatryddion Ymgynghorol Annibynnol sy'n darparu ein gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn.



# Rhagair

## Croeso i'n Cynllun Gweithredol ar gyfer **2026-2027**.



**Alun Jones**
Prif Weithredwr
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

**"Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn helpu i greu system gofal iechyd fwy diogel, mwy effeithiol a mwy tosturiol i Gymru."**

Yn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), rydym yn gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn cael gofal iechyd diogel o ansawdd uchel. Rydym yn gwneud hyn drwy wrando ar brofiadau pobl, arolygu a rheoleiddio gwasanaethau, a gweithio gyda phartneriaid i gefnogi gwelliannau ystyrlon a pharhaol.

Y Cynllun Gweithredol hwn yw'r cyntaf i gael ei lywio gan ein **Strategaeth newydd ar gyfer 2026-2030**. Mae'n adeiladu ar sylfeini cryf ac yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i bobl a chymunedau. Dryw osod camau gweithredu clir, mae'r cynllun yn darparu llwybr ymarferol ar gyfer cyflawni'r amcanion yn ein Strategaeth. Caiff ein blaenoriaethau eu llywio gan y risgiau, yr heriau a'r cyfleoedd a nodir ym mhob rhan o'r system gofal iechyd, gan ysgogi gwelliant a gofal o ansawdd uchel.

Byddwn yn defnyddio dull gweithredu cytbwys ac yn seiliedig ar risg wrth gyflawni pob un o'n swyddogaethau, gan addasu wrth i'r dirwedd gofal iechyd ddatblygu.

Bydd ein gwaith yn hyblyg ac yn ymatebol o hyd, gan sicrhau ein bod yn arolygu'r gwasanaethau cywir ar yr adeg gywir. Byddwn yn parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol, gan gynnwys y rheini o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), a'r rheoliadau gofal iechyd annibynnol.

## Rhoi Pobl yn Gyntaf

Y flwyddyn hon, byddwn yn cryfhau'r ffordd y mae profiadau pobl yn llywio ein gwaith. Drwy ehangu ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i unigolion a chymunedau, byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl yn eu hwynebu wrth gael gafael ar ofal a'i ddefnyddio.

Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth, yn mireinio ein dull arolygu ac adrodd, ac yn herio anghydraddoldeb, fel bod pob llais yn cael ei glywed.



## Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd

Mae gwella'n effeithiol yn dibynnu ar bartneriaethau cryf. Byddwn yn adeiladu ar ein cydberthnasau ar draws y system gofal iechyd, gan rannu gwybodaeth a chydweithio ar faterion cenedlaethol. Drwy weithio'n agos gyda gwasanaethau, rheoleiddwyr a chyrff goruchwylio, byddwn yn cefnogi dealltwriaeth a rennir o risgiau ac yn helpu i ysgogi dysgu drwy'r system gyfan. Byddwn hefyd yn cryfhau'r ffordd rydym yn olrhain ein gwaith fel bod ein canfyddiadau yn arwain at welliannau amserol.

## Buddsoddi yn Ein Pobl

Mae ein heffaith yn dibynnu ar alluogrwydd a llesiant ein staff. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i ymgorffori diwylliant o fyfyrio a datblygu'n barhaus. Byddwn yn buddsoddi mewn adnoddau digidol, hyfforddiant, llwybrau datblygu clir a dysgu ar draws timau i gefnogi gwaith effeithlon a chydweithredol. Byddwn hefyd yn parhau i feithrin gweithle cynhwysol a arweinir gan ein strategaeth **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**.



## Cymryd Camau sydd o Bwys

Byddwn yn parhau i gymryd camau clir, cymesur a thryloyw i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cryfhau ein dulliau arolygu a rheoleiddio, gan wneud ein hargymhellion yn fwy eglur, a chyfleu penderfyniadau gorfodi yn effeithiol. Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn gwrando ar bryderon ac yn ymateb iddynt, gan gynnwys achosion chwythu'r chwiban, gan sicrhau bod pobl yn deall pa gamau rydym wedi'u cymryd.

Ar draws y pedair blaenoriaeth, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar fod yn llais dibynadwy ac annibynnol sy'n cefnogi gwelliannau ar draws y system gofal iechyd. Rydym yn ddiolchgar i'n staff, ein hadolygwyr cymheiriaid, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid am eu hymrwymiad parhaus.

Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn helpu i greu system gofal iechyd fwy diogel, mwy effeithiol a mwy tosturiol i Gymru.

**Alun Jones**
Prif Weithredwr
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

# Blaenoriaeth 1

## Rhoi Pobl yn Gyntaf

Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.



| Amcanion |
| --- |
| Deall profiad bywyd yn well drwy daith y claf, gan gynnwys mynediad at ofal a'i ansawdd a pha mor dda y mae gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd. |
| Gwella'r ffordd rydym yn gwneud ein gwaith ac yn adrodd arno er mwyn ei gwneud yn haws i wasanaethau ddysgu a gweithredu. |
| Ymchwilio i ddulliau cynhwysol ac arloesol o ymgysylltu â'r cyhoedd, staff gofal iechyd a sefydliadau partner, a'u cymhwyso. |
| Gwella'r ffordd rydym yn defnyddio ac yn rhannu gwybodaeth am risgiau i gleifion gyda'n timau er mwyn llywio ein gwaith sicrwydd. |
| Herio anghydraddoldebau yn rhagweithiol a sicrhau bod lleisiau pobl yn llywio ein gwaith a dyfodol gofal iechyd. |
| Atgyfnerthu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'n rôl, ein pwerau a'n diben, gan sicrhau bod pobl yn gwybod sut i gysylltu â ni a'r hyn y gallant ei ddisgwyl pan fyddant yn gwneud hynny. |

# Blaenoriaeth 1

## Rhoi Pobl yn Gyntaf

Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.



### Camau Gweithredu 2026-2027

- Cyflawni gweithgareddau rheoleiddio ac arolygu ar draws y sector gofal iechyd annibynnol, gan sicrhau cydymffurfiaeth â safonau a rheoliadau.
- Cynnal rhaglen sicrwydd ac arolygu seiliedig ar risgiau yn y GIG, wedi'i llywio gan wybodaeth.
- Ystyried y ffordd rydym yn asesu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar draws ein gweithgarwch sicrwydd, gan rannu arferion da pan fyddwn yn eu nodi.
- Archwilio dull sicrwydd yn seiliedig ar wybodaeth glinigol ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol, gan ystyried taith y claf.
- Datblygu a gweithredu dull newydd o wirio ansawdd a diogelwch y GIG a gwasanaethau gofal iechyd, gan ddechrau gyda gwaith ar ofal mamolaeth a newyddenedigol.
- Adolygu a chryfhau ein prosesau adrodd a rhannu canfyddiadau mewn perthynas â darparwyr gwasanaethau gofal iechyd annibynnol.
- Gwella'r ffordd rydym yn rhannu gwybodaeth â thimau ac â phartneriaid allweddol, fel bod gennym ddealltwriaeth gryfach a chyffredin o risgiau mewn gwasanaethau gofal iechyd.
- Gwella'r ffordd rydym yn nodi ac yn ystyried risgiau anghydraddoldeb iechyd yn ein gwaith cynllunio a sicrwydd.
- Parhau i ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ein gwaith sicrwydd ac adolygu ein hadnoddau a'n canllawiau yn rheolaidd gyda mewnbwn gan randdeiliaid.
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu i godi ymwybyddiaeth o AGIC a'n rôl.

# Blaenoriaeth 2

## Dysgu a Gweithio Gyda’n Gilydd

Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

| Amcanion |
| --- |
| Meithrin partneriaethau cryf ac effeithiol i rannu gwybodaeth a chefnogi gwelliant ar draws gwasanaethau gofal iechyd. |
| Cydweithio ag eraill i fynd i’r afael â materion cenedlaethol sy’n effeithio ar ofal iechyd. |
| Olrhain ein gwaith mewn modd amserol i sicrhau bod ein canfyddiadau yn llywio gwelliannau. |
| Cynllunio a chyflawni rhaglen a arweinir gan wybodaeth o waith seiliedig ar adolygiadau sy’n adlewyrchu blaenoriaethau gofal iechyd ac yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i bobl. |
| Sicrhau bod cleifion, gofalwyr a staff gofal iechyd rheng flaen yn cael eu cynnwys yn ein gwaith, gan gynnwys wrth gynllunio, darparu a gwerthuso. |

# Blaenoriaeth 2

## Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd

Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.



### Camau Gweithredu 2026-2027

- Monitro cynnydd ac effaith y dull newydd ar gyfer ymgysylltu â Byrddau Iechyd y GIG yng Nghymru.
- Rhoi fformat newydd ar waith ar gyfer yr Uwchgynhadledd Gofal Iechyd genedlaethol er mwyn nodi themâu ym mhob rhan o'r system sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion, ansawdd y gofal a pherfformiad y GIG.
- Cymryd rhan mewn gweithgarwch arolygu ar y cyd a rhannu gwybodaeth â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys gwasanaethau gofal iechyd i droseddwyr, er mwyn mynd i'r afael â materion cenedlaethol sy'n effeithio ar ofal iechyd.
- Dechrau gwaith i gryfhau adroddiadau am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, gan gynnwys ystyried opsiynau i wella prosesau cofnodi data.
- Adolygu ein proses olrhain ar ôl tri mis i sicrhau ein bod yn adrodd ar ein canfyddiadau mewn modd amserol ac yn nodi a oes angen newid amserlenni neu'r dull gweithredu mewn unrhyw ffordd.
- Datblygu'r adolygiad cenedlaethol ar fynediad at ofal sylfaenol i bobl ag anableddau dysgu.
- Rhannu themâu allweddol o'n canfyddiadau drwy ddigwyddiadau dysgu er mwyn cefnogi gwelliant ar draws gwasanaethau gofal iechyd annibynnol.
- Datblygu sianeli cyfathrebu, gan ddefnyddio ein Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid, digwyddiadau a phlatfformau digidol, er mwyn cefnogi prosesau ymgysylltu ystyrlon â chleifion, gofalwyr a staff rheng flaen.

# Blaenoriaeth 3

## Buddsoddi yn Ein Pobl

Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.



| Amcanion |
| --- |
| Croesawu arloesedd a mabwysiadu adnoddau digidol er mwyn cynyddu ein heffaith a'n heffeithlonrwydd. |
| Creu diwylliant o fyfyrio a dysgu, lle rydym yn herio ein hunain i wella'n barhaus. |
| Mesur effaith newidiadau mewnol er mwyn sicrhau eu bod yn arwain at welliannau ystyrlon i'n pobl a'r ffordd rydym yn gweithio. |
| Darparu llwybrau datblygu cliriach a sicrhau bod ein staff yn meddu ar yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i weithio'n effeithiol. |
| Adeiladu ar y gwaith o roi ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith, gan gefnogi diwylliant cynhwysol. |

# Blaenoriaeth 3

## Buddsoddi yn Ein Pobl

Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.



### Camau Gweithredu 2026-2027

- Sicrhau bod ein system Rheoli Cydberthnasau â Chwsmeriaid (CRM) yn addas at y diben, fel y gellir cofnodi data yn gywir a chynllunio'n effeithiol er mwyn cefnogi ein swyddogaethau craidd.
- Mabwysiadu adnoddau digidol arloesol a darparu'r hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen i sicrhau y gall pob tîm eu defnyddio'n hyderus ac yn effeithiol.
- Creu diwylliant o fyfyrio a dysgu, gan wella mynediad at gyfleoedd dysgu a datblygu, ac adolygu rhaglenni sefydlu fel bod staff newydd yn barod i ymgymryd â'u rolau.
- Mesur effaith newidiadau mewnol a chryfhau gwelliant parhaus drwy weithgarwch gwersi a ddysgwyd.
- Cryfhau ein dull recriwtio a defnyddio adolygwyr cymheiriaid clinigol, gan sicrhau ein bod yn defnyddio adolygwyr â'r sgiliau a'r profiad cywir ar gyfer ein gwaith.
- Diweddaru ein rhaglen hyfforddiant i adolygwyr cymheiriaid er mwyn sicrhau bod y clinigwyr sy'n gweithio gyda ni yn cael profiad gwerthfawr ynghyd â chyfleoedd i ddatblygu.
- Cryfhau trefniadau datblygu a hyfforddi ar gyfer ein hadolygwyr cymheiriaid iechyd meddwl arbenigol er mwyn cefnogi eu gofynion ailddilysu.
- Trefnu cyfleoedd i staff dreulio amser mewn timau eraill i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth, gan helpu i feithrin gwydnwch sefydliadol.
- Adeiladu ar ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy fonitro cynnydd, gan gydlynu â pholisïau cysylltiedig, a gweithio gyda rhanddeiliaid i lywio ein gweithgarwch a dylanwadu arno.
- Darparu ein gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD) mewn lleoliadau Iechyd Meddwl, gan ystyried diweddariadau i ddeddfwriaeth y Ddeddf Iechyd Meddwl.

# Blaenoriaeth 4

## Cymryd Camau sydd o Bwys

Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



| Amcanion |
| --- |
| Rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd gan ddefnyddio dulliau clir, teg ac arloesol. |
| Cymryd camau gorfodi pendant pan na fydd gofal yn cyrraedd y safonau, gan sicrhau bod darparwyr yn atebol. |
| Adolygu ac addasu ein dulliau sicrwydd i adlewyrchu anghenion system gofal iechyd fodern sy’n datblygu. |
| Cryfhau’r ffordd rydym yn gwrando ar bryderon ac yn ymateb iddynt, gan gynnwys drwy ein sianeli chwythu’r chwiban, er mwyn diogelu pobl a chefnogi gwelliant. |
| Cyhoeddi gwybodaeth glir am y camau rydym wedi’u cymryd a’u heffaith. |

# Blaenoriaeth 4

## Cymryd Camau sydd o Bwys

Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



### Camau Gweithredu 2026-2027

- Adolygu'r broses gofrestru ddiwygiedig er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n effeithlon a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i gefnogi'r dull gweithredu newydd.
- Sicrhau bod cyngor clinigol meddyliol ac acíwt ar gael sydd o ansawdd uchel, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn amserol er mwyn cefnogi AGIC i gyflawni ei swyddogaethau arolygu a rheoleiddio.
- Adolygu ein prosesau uwchgyfeirio a chryfhau ein dull o nodi gwasanaethau gofal iechyd anghofrestredig ac ymateb iddynt.
- Datblygu a darparu rhaglen hyfforddiant ar gyfer adolygwyr cymheiriaid ar fethodoleg.
- Datblygu ymdrechion i lywio a dylanwadu ar newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol a'r strwythur ffioedd ar gyfer gofal iechyd annibynnol ac addasu ein dull gweithredu.
- Cryfhau ein proses ar gyfer rheoli pryderon, gan gynnwys achosion chwythu'r chwiban, a gaiff eu rhannu â ni am y gofal y mae pobl yn ei gael.
- Cyflwyno prosesau adrodd rheolaidd ar themâu a materion sy'n deillio o bryderon a gaiff eu rhannu â ni.
- Cyhoeddi gwybodaeth glir, ddwyieithog a hygyrch, gan ddefnyddio fformatau niferus i sicrhau y gall pawb ddeall yr hyn rydym yn ei wneud a'r gwahaniaeth rydym yn ei wneud.
- Adolygu a diweddaru'r canllawiau ar hysbysiadau statudol ar gyfer practisau deintyddol preifat.

# Adnoddau

**Mae gennym gyllideb o oddeutu £6.2m ar gyfer 2026-2027. Mae gennym swyddi cyfwerth ag oddeutu 95 o aelodau o staff llawn amser, gan gynnwys tri secondiad, yn ogystal â phanel o dros 129 o adolygwyr cymheiriaid arbenigol.**

Mae gennym hefyd arbenigwyr ym maes Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl a phanel o Seiciatryddion sy'n darparu ein gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD). Mae gennym 31 o Adolygwyr Profiad y Claf ac Arbenigwyr drwy Brofiad sy'n gweithio gyda ni ar arolygiadau er mwyn casglu barn cleifion.

| Tim | Nifer y swyddi |
|---|---|
| Uwch-swyddog Gweithredol | 3 |
| Arolygu | 24 |
| Rheoleiddio ac Uwchgyfeirio | 18 |
| Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg | 13 |
| Strategaeth a Chyfathrebu | 6 |
| Cyngor Clinigol (gan gynnwys y gwasanaeth meddygon a benodwyd i roi ail farn) | 7 |
| Gwasanaethau Rheoli Busnes, Digidol a Chorfforaethol | 21 |
| Secondiadau (staff dros dro sydd ar fenthyg o sefydliadau eraill) | 3 |
| **Cyfanswm** | **95** |

**£6.2m**
Cyllideb ar gyfer 2026-2027

**95** Staff llawn amser

**129** Adolygwyr cymheiriaid arbenigol

**31** Adolygwyr Profiad y Claf ac Arbenigwyr drwy Brofiad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Cysylltwch â ni

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Drwy e-bost: **AGIC@llyw.cymru**
Dros y ffôn: **0300 062 8163**

**www.agic.org.uk**

## Dewch o hyd i ni ar:



© Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53628,
ISBN digidol 978-1-83745-542-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg